# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Bro Morgannwg

## Strategaeth a Ffefrir – Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Cyngor Bro Morgannwg

Rhif y prosiect: 60676814

Medi 2023

Delivering a better world

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Penodwyd AECOM gan Gyngor Bro Morgannwg (CBM) i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC) o Strategaeth a Ffefrir ei Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN), sy'n pennu targedau twf eang ar gyfer yr awdurdod rhwng 2021 a 2036. Mae Polisi SP1 (Strategaeth Twf) yn darparu ar gyfer 7,890 o anheddau a 67.8 hectar o ofod cyflogaeth, gyda lleoliadau Safleoedd Allweddol i'w datblygu hefyd yn cael eu nodi yn y CDLlN. Amcan yr ARhC yw nodi unrhyw agweddau ar y CDLlN a allai arwain at Effeithiau Arwyddocaol Tebygol (EAT) a, lle bo'n berthnasol, effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd, gan gynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac, fel mater o bolisi'r Llywodraeth, safleoedd Ramsar. Mae'r ARhC yn asesu effeithiau amgylcheddol posibl y CDLlN yn unig, yn ogystal ag ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill, gan gynghori ar fecanweithiau polisi priodol ar gyfer lliniaru lle bo angen. Fodd bynnag, o ystyried ei gam datblygu cymharol gynnar, nid yw'r CDLlN yn nodi'r holl ddyraniadau datblygu eto na geiriad polisi cynhwysfawr. O'r herwydd, caiff yr Asesiad Priodol (AP; ail gam proses yr ARhC) ar rai o'r llwybrau effaith ei ohirio i ARhC y Cynllun Adneuo ac y caiff meysydd gwaith pellach i lywio'r ARhC hwnnw eu nodi.

## Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae'r angen am asesiad o effeithiau ar safleoedd Ewropeaidd wedi'i nodi yng nghyfraith Cymru a Lloegr gan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd). Er mwyn canfod a fydd unrhyw safleoedd Ewropeaidd yn cael eu heffeithio, rhaid i awdurdodau cymwys felly gynnal ARhC o'r cynllun neu'r prosiect dan sylw, gan gynnwys AP os oes angen, cyn ei gymeradwyo.

## Cwmpas

O ystyried asesiad cychwynnol o'r safleoedd Ewropeaidd perthnasol o fewn 15km i Fro Morgannwg, eu sensitifrwydd a'r llwybrau effaith tebygol yn codi o bolisïau CDLlN, mae'r safleoedd Ewropeaidd canlynol wedi'u cynnwys yn yr asesiad (o leiaf nes cwblhau cam Sgrinio'r EAT): ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren, ACA Bae Dwnrhefn, ACA Cynffig, ACA Coed Ffawydd Caerdydd, ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr ac ACA Coetiroedd Melin Ifan Ddu

## Tasgau ARhC

Ar ôl casglu tystiolaeth gychwynnol, cam cyntaf unrhyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yw sgrinio ar gyfer EAT, yn y bôn asesiad o risgiau posibl cynlluniau datblygu ar gyfer safleoedd Ewropeaidd. Os na ellir eithrio EAT, yn bennaf oherwydd bod mecanwaith realistig ar gyfer rhyngweithio andwyol rhwng polisi a chynefin/rhywogaeth gymwys yn bresennol, mae cam nesaf ARhC, a elwir yn AP, yn cael ei sbarduno. Mae'r AP yn ddadansoddiad manylach o'r llwybrau effaith a'r safleoedd Ewropeaidd a ystyrir yn y cam Sgrinio. Un o'r agweddau allweddol ar AP yw ystyried mesurau lliniaru, sy'n helpu i amddiffyn safleoedd Ewropeaidd rhag effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safle. Yn yr ARhC hwn, cafodd proses Sgrinio EAT ac AP eu cynnal.

## Canfyddiadau ac Argymhellion

Yn seiliedig ar wybodaeth wrthrychol, gellid eithrio EATau ar gyfer rhai llwybrau effaith – rhyngweithiadau safleoedd Ewropeaidd. Fodd bynnag, ni ellid eithrio EATau ar gyfer rhai llwybrau effaith o ran ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren, ACA Coed Ffawydd Caerdydd ac ACA Cynffig. Cafodd y llwybrau effaith canlynol eu sgrinio ar gyfer AP:

- <u>Pwysau hamdden</u> yn ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren;
- <u>Ansawdd y dŵr</u> yn ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren ac ACA Cynffig;
- <u>Materion swm, lefel a llif y dŵr</u> yn ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren ac ACA Cynffig;

- Colli cynefin cysylltiedig o ran AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren;
- Aflonyddwch gweledol a sŵn i adar cymwys yn AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren; ac
- Effeithiau cywasgu arfordirol yn ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae angen gwybodaeth bellach (e.e. set lawn o ddyraniadau, geiriad polisi cyflawn) i gynnal asesiad trylwyr a gwneud casgliadau / argymhellion pendant. Ar ben hynny, gofynnir am wybodaeth ychwanegol gan randdeiliaid perthnasol (e.e. Dŵr Cymru, Natural England ac Asiantaeth yr Amgylchedd) i gefnogi ARhC y Cynllun Adneuo. Mae'r paragraffau canlynol yn crynhoi'r canfyddiadau a'r argymhellion allweddol ynghylch y llwybrau effaith a'r safleoedd Ewropeaidd mwyaf perthnasol.

**Pwysau Hamdden**

Mae Strategaeth a Ffefrir y CDLlN yn dyrannu Safleoedd Allweddol o fewn dalgylch hamdden craidd 7km ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren, a fydd yn arwain at gynnydd mewn pwysau hamdden ar hyd yr aber. Ar gyfer y CDLlN Adneuo, bydd AECOM yn ymgysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ac ecolegydd Cyngor Bro Morgannwg ynghylch yr angen i roi mesurau lliniaru ar waith ar gyfer y safle hwn ar hyd ochr ddwyreiniol yr awdurdod. Un dull posibl fyddai cyflwyno mesurau sy'n benodol i leoliad mewn mannau mynediad perthnasol. Fel arall, gellid datblygu dull cydweithredol gydag awdurdodau eraill sy'n darparu twf preswyl yn nalgylch hamdden craidd ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren (e.e. Cyngor Dosbarth Stroud, Cyngor Dinas Caerdydd, Cyngor Sir Fynwy).

Nododd yr AP fod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch y gwaelodlin hamdden presennol a'r effeithiau negyddol presennol i gynefinoedd cymwys o fewn ACA Coed Ffawydd Caerdydd. Er gwaethaf hyn, oherwydd dosbarthiad daearyddol twf preswyl (yr holl Safleoedd Allweddol gryn dipyn ymhellach o'r ACA na dalgylch craidd 5km nodweddiadol ar gyfer safleoedd Ewropeaidd daearol), ystyrir ei bod yn annhebygol iawn y bydd CDLlN Bro Morgannwg yn gwneud cyfraniad sylweddol i unrhyw wyriad o'r gwaelodlin hamdden presennol. Felly, ni fydd y CDLlN yn achosi unrhyw effeithiau andwyol ar ACA Coed Ffawydd Caerdydd o ran pwysau hamdden, ar ei ben ei hun nac ar y cyd.

**Ansawdd Dŵr**

Mae adolygiad o'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff (GTDG) sy'n gwasanaethu Bro Morgannwg yn dangos bod datblygiadau yn rhan ddwyreiniol yr awdurdod (sydd agosaf at ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren) yn debygol o gael eu gwasanaethu gan GTDG Cog Moors. Fodd bynnag, mae'r GTDG hwn yn rhyddhau i Afon Tregatwg (trwy Nant Sili), sy'n mynd i Fôr Hafren i'r gorllewin o'r ACA / AGA / Safle Ramsar. Mae'n annhebygol bod unrhyw gysylltiad hydrolegol materol rhwng carthffrwd wedi'i drin o GTDG Cog Moors ac ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren. Yn gyffredinol, felly, gellir eithrio effeithiau andwyol CDLlN Bro Morgannwg ar ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren o ran effeithiau ansawdd dŵr o garthffrwd wedi'i drin.

Mae'n debygol y bydd ansawdd y dŵr yn ACA Cynffig yn cael ei ddylanwadu gan garthffrwd wedi'i drin o GTDG Merthyr Mawr, Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n rhyddhau i Afon Ogwr yn union i'r gogledd-ddwyrain o'r ACA. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir a yw'r GTDG hwn yn gwasanaethu unrhyw ddatblygiad presennol ym Mro Morgannwg. Bydd AECOM yn cysylltu â Dŵr Cymru i gadarnhau hyn ar gyfer y CDLlN Adneuo. Mae'r GTDG wedi'i leoli yn awdurdod Pen-y-bont ar Ogwr a byddai gofyn i unrhyw seilwaith dŵr gwastraff sy'n gysylltiedig â datblygiadau ym Mro Morgannwg groesi Afon Ogwr. Ar ben hynny, hyd yn oed os yw'r GTDG yn gwasanaethu rhannau o Fro Morgannwg, nid yw'n glir a fydd y CDLlN yn dyrannu datblygiadau o fewn yr ardal ddaearyddol y mae'n ei gwasanaethu. **Ar adeg ysgrifennu hyn, ni ellir eithrio effeithiau andwyol CDLlN Bro Morgannwg ar ACA Cynffig o ran effeithiau ansawdd dŵr o garthffrwd wedi'i drin.** Ar gyfer y CDLlN Adneuo, bydd y gyfres lawn o ddyraniadau datblygu a chysylltiadau carthffosiaeth cysylltiedig yn cael eu hasesu.

Gall effeithiau ansawdd dŵr sy'n negyddol hefyd ddigwydd oherwydd dŵr wyneb ffo o arwynebau daear caled sy'n agos i gyrff dŵr. Nid oes yr un o'r Safleoedd Allweddol wedi'u lleoli ar bellteroedd o ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren ac ACA Cynffig lle byddai dŵr wyneb ffo yn fater i'w ystyried. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau diogelwch rhag effeithiau ansawdd dŵr sy'n gysylltiedig â dŵr ffo, asesir y gyfres lawn o ddyraniadau o ran eu pellter a'u cysylltedd hydrolegol â'r safleoedd Ewropeaidd hyn. **Ar adeg ysgrifennu hyn, ni ellir eithrio effeithiau andwyol CDLlN Bro**

**Morgannwg ar ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren nac ACA Cynffig o ran effeithiau ansawdd dŵr o ddŵr wyneb ffo.**Bydd y casgliad hwn yn cael ei ailasesu yn ARhC y CDLlN Adneuo.

**Swm, Lefel a Llif Dŵr**

Yn ôl y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr (CRhAD) a gyhoeddwyd gan Dŵr Cymru, mae Bro Morgannwg wedi'i rannu rhwng dau Barth Adnoddau Dŵr (PAD), sef System Defnydd Cysylltiol Tywi Gŵyr a De-ddwyrain Cymru, y ddau ohonynt lle rhagwelir diffyg cyflenwad-galw dros gyfnod y CRhAD. Fodd bynnag, mae'r AP yn tynnu sylw at y ffaith na fydd yr opsiynau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r diffyg cyflenwad-galw hwn yn gofyn am ddefnyddio unrhyw ffynonellau dŵr daear neu wyneb ychwanegol y tu hwnt i derfynau a ganiateir ar hyn o bryd. Felly, nid oes potensial i CDLlN Bro Morgannwg leihau'r cyflenwadau dŵr croyw i unrhyw safle Ewropeaidd. Yn gyffredinol, ni fydd y CDLlN yn arwain at effeithiau andwyol ar ACA Cynffig nac ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren o ran effeithiau ar swm, lefel a llif dŵr, naill ai ar ei ben ei hun nac ar y cyd.

**Colli Cynefin â Chysylltiadau Swyddogaethol**

Aseswyd y potensial i'r Safleoedd Allweddol a ddyrannwyd yn Strategaeth a Ffefrir y CDLlN fod yn safleoedd cysylltiedig ag AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren. Mae'r data a gyflwynwyd yn yr AP yn dangos bod gan ddau Safle Allweddol (Tir i'r gogledd o Ddinas Powys, Tir yng ngogledd-ddwyrain y Barri) addasrwydd canolig-uchel fel cynefin cefnogol oddi ar y safle ar gyfer rhywogaethau adar AGA / Safle Ramsar. Mae'n debygol y bydd safleoedd ychwanegol yn cael eu dyrannu yn y CDLlN Adneuo, a fydd hefyd yn gofyn am asesiad unigol.

Er mwyn lleihau'r potensial i'r CDLlN sy'n cael ei ddatblygu arwain at golli cynefinoedd cysylltiedig, argymhellir bod y testun canlynol (neu debyg) yn cael ei gynnwys mewn polisi priodol yn y Cynllun Adneuo: '***Er mwyn bodloni gofynion Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd), mae angen i'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth na fydd datblygiad yn arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren o ran colli cynefinoedd cysylltiedig. Er mwyn dangos hyn, mae angen arolwg o'r cynefinoedd ar y safle. Pan fo cynefinoedd yn addas, rhaid cynnal arolygon adar nad ydynt yn magu i benderfynu a yw'r safle'n gynefin cysylltiedig (a ddiffinnir fel un sy'n cefnogi yn agos at neu'n uwch nag 1% o unrhyw boblogaeth gymwys). Bydd angen i'r arolwg gwmpasu'r hydref, y gaeaf a'r gwanwyn i ddal y gaeafu craidd yn ogystal ag unrhyw gyfnodau pasio drwodd. Os nodir bod cynefin o fewn y safle yn cefnogi poblogaethau sylweddol o rywogaethau adar dynodedig, bydd angen mesurau osgoi a lliniaru, ac mae'n debygol y bydd angen asesu'r cais cynllunio drwy Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n benodol i'r prosiect.***' Ar yr amod bod y geiriad polisi hwn yn cael ei gynnwys, gellir dod i'r casgliad nad yw CDLlN Bro Morgannwg yn arwain at effeithiau andwyol ar gyfanrwydd AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren o ran colli cynefinoedd cysylltiedig.

**Aflonyddwch Gweledol a Sŵn**

Mae rhai ardaloedd yn nwyrain Bro Morgannwg o fewn 300m i AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren, y pellter lle mae effeithiau gweledol a sŵn ar adar cymwys yn debygol o ddigwydd oddi mewn iddynt. Er nad yw Strategaeth a Ffefrir y CDLlN yn dyrannu unrhyw Safleoedd Allweddol o fewn y parth clustogi aflonyddwch, bydd dyraniadau safle pellach yn cael eu cyflwyno dan y CDLlN Adneuo. Mae potensial hefyd y bydd datblygiadau annisgwyl yn digwydd yn yr ardal ehangach o amgylch Penarth. Er mwyn sicrhau bod y rhywogaethau cymwys yn AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren yn cael eu diogelu rhag aflonyddwch ac y bydd mesurau lliniaru digonol yn cael eu cyflwyno ar lefel cais cynllunio, argymhellir bod mecanwaith polisi i'r perwyl hwn yn cael ei gynnwys yn y CDLlN Adneuo.

Mae'r argymhellion canlynol yn cael eu gwneud ar gyfer Cynllun Adneuo'r CDLlN: a fydd yn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren o ran aflonyddwch gweledol a sŵn (i'w cynnwys naill ai yn nhestun ategol polisi perthnasol neu, mewn fformat cryno, yn nhestun y polisi ei hun):

- ***Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o aflonyddwch gweledol a sŵn, argymhellir bod unrhyw waith adeiladu o fewn 300m i AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren yn cael ei wneud yn ystod misoedd yr haf, pan na fydd poblogaethau cymwys yn y safle yn bresennol.***
- ***Os na ellir amseru gwaith adeiladu i osgoi'r tymor lle na cheir bridio (h.y. cyfnodau pasio heibio a'r gaeaf), bydd angen cynnal asesiadau o effaith sŵn i sicrhau na fydd***

***lefelau sŵn mewn derbynyddion sensitif yn achosi aflonyddwch. Byddai angen i ARhCau sy'n cyd-fynd â cheisiadau cynllunio perthnasol ddangos hyn naill ai (a) drwy ddefnyddio trothwy absoliwt o 69dB neu (b) gymharu lefelau sŵn gwaith adeiladu â'r gwaelodlin cyn dechrau datblygu. Lle dangosir bod lefelau sŵn y cyfnod adeiladu yn achosi aflonyddwch, mae'n debygol y bydd angen mesurau lliniaru (e.e. sgriniau sŵn, technegau adeiladu llai swnllyd, offer lleddfu sŵn, osgoi goleuadau).***

- ***Dylai gwaith adeiladu o fewn 300m i unrhyw fannau clwydo penllanw sefydledig neu ardaloedd porthiant allweddol yn neu'r tu allan i'r AGA / Safle Ramsar fod â sgriniau priodol i leihau aflonyddwch gweledol.***

**Cywasgu Arfordirol**

Gallai datblygiadau ym Mro Morgannwg gael eu lleoli ger ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren, a allai arwain at gywasgu arfordirol. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn yr AP, mae'r dull trosfwaol o reoli arfordirol wedi'i nodi yng Nghynllun Rheoli Traethlin (CRhT) Aber Afon Hafren. Mae arfordir Bro Morgannwg o fewn Uned Polisi PEN2 eisoes wedi'i ddatblygu'n fawr, gyda thai'n ffinio â'r Esplanâd yn uniongyrchol. Felly, mae'n annhebygol y bydd CDLlN Bro Morgannwg yn dyrannu llawer o ddatblygiadau ar safleoedd maes glas ger yr aber. At hynny, fel yr amlygwyd uchod, mae'r dull rheoli cyffredinol Cynnal y Llinell (CyLl) ar gyfer yr Uned Bolisi hon yn cael ei lywio gan y CRhT strategol. Cyn ei fabwysiadu, byddai'r CRhT wedi bod yn destun ARhC i asesu a fyddai'n arwain at effeithiau andwyol ar ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren o ran cywasgu arfordirol. Ar gyfer unrhyw strategaethau arfordirol na ellir eithrio effeithiau andwyol ar gynefinoedd rhynglanwol ar eu cyfer, mae'r Rhaglen Rhanbarthol Gwneud Iawn am Golli Cynefinoedd ar waith i sicrhau iawn i gynefinoedd trwy gynlluniau Adlinio a Reolir (AR). Felly, ni fydd CDLlN Bro Morgannwg yn achosi unrhyw effeithiau andwyol ar ACA / AGA / Safle Ramsar Aber Afon Hafren o ran cywasgu arfordirol. Mae hyn oherwydd bod unrhyw ddulliau polisi CyLl yn cael eu nodi, eu hasesu ac y gwneir iawn ar eu cyfer ar lefel y CRhT.

aecom.com